OCR
RECOGNISING ACHIEVEMENT

# Chief Examiner's Report

# Prosesu Geiriau Lefel 1 (03946)
## Summer 2011

All candidates succeeded in completing the examination paper. The standard was satisfactory with evidence of some candidates proof-reading their work thoroughly and carefully. Faults were incurred mainly for typing errors, but a number of presentation faults were also penalised.

**Document 1**

Not all candidates succeeded in changing the left margin correctly (4T) and many failed to use full justification (4S) throughout the whole document. The majority of candidates managed to move the text to the correct position but not all used double line spacing as instructed (4C). All candidates managed to indent the paragraph according to the instruction but some candidates failed to include the automatic filename and path in the footer area correctly (2.3). Some candidates did not proof-read thoroughly and as a result a whole paragraph was omitted (2.1). Some candidates did not perform the word count correctly (2.3). Instances of 'eryri' instead of 'Eryri' were penalised (1.7). Many keying in errors were penalised in this document also.

**Document 2**

This document was completed best throughout the paper. Not every candidate managed to centre the heading (4F) but all did complete the vertical transposition correctly. Text was underlined and emphasised according to the instructions. All candidates managed to insert a picture correctly and all candidates managed to include a full page border. Not all candidates deleted recalled text (2.2) and not all candidates used an initial capital letter as presented in the draft (1.7) – 'henwlad'/'Henwlad'. Keying in errors were mostly penalised in this document.

**Document 3**

Most candidates were successful in completing this document well. All candidates changed the order of the table columns as required. Some candidates chose to present the table without ruling, and to leave a blank line after the column headings: this is acceptable when not using lines of ruling. Other candidates chose to use ruling for the table: this is also acceptable but one blank line must be left after the column headings. However, candidates were penalised for leaving a blank row after the column headings resulting in one row of three blank cells and this was penalised under 4L. Keying in errors were penalised mainly and not using an initial capital letter as presented in the draft (1.7).

## Document 4

This document was completed satisfactorily. Some candidates were penalised for omitting the lines or ruling in the form (2.3). Others were penalised for not including the date (or presenting it in English) (2.1) and for not applying the strikethrough (2.3). Penalties were incurred mostly for keying in errors such as failure to use initial capitals as shown in draft (1.7).

Llwyddodd pob ymgeisydd i gwblhau'r papur arholiad. Roedd y safon yn foddhaol gydag ôl rhai ymgeiswyr yn prawf-ddarllen eu gwaith yn drwyadl a gofalus. Cosbwyd yn bennaf am wallau teipio, ond cosbwyd hefyd am nifer o wallau cyflwyno.

## Dogfen 1

Ni lwyddodd pob ymgeisydd i newid yr ymyl chwith yn gywir (4T) a methodd nifer ddefnyddio ymylon wedi'u hunioni (4S) ar gyfer y ddogfen gyfan. Llwyddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i symud y testun i'r man cywir ond ni ddefnyddiodd pob un ofod dwbl yn ôl y cyfarwyddyd (4C). Llwyddodd pob ymgeisydd i fewnleoli'r paragraff yn ôl y cyfarwyddyd ond ni lwyddodd pawb i roi enw'r ffeil a'r llwybr yn awtomatig yn y troedyn (2.3). Methodd ambell ymgeisydd brawf-ddarllen yn ofalus ac o ganlyniad cafodd paragraff cyfan ei hepgor (2.1). Ni lwyddodd sawl ymgeisydd i gyfri'r geiriau'n gywir chwaith (2.3). Cosbwyd ambell enghraifft o 'eryri' yn lle 'Eryri' (1.7). Cosbwyd nifer o wallau camdeipio yn ogystal yn y ddogfen hon hefyd.

## Dogfen 2

Dyma'r ddogfen a gwblhawyd orau yn y papur. Ni lwyddodd pob un o'r ymgeiswyr i ganoli'r pennawd (4F) ond fe lwyddodd pawb i drawsosod y paragraffau. Tanlinellwyd a phwysleisiwyd testun yn ôl y gofyn. Llwyddodd pob ymgeisydd i fewnosod llun. Llwyddodd pob un i gynnwys border i'r dudalen gyfan. Ni lwyddodd pawb i ddileu geiriau o'r testun a alwyd yn ôl (2.2) ac ni lwyddodd pawb i ddefnyddio priflythyren ddechreuol fel a gyflwynwyd yn y drafft (1.7) – 'henwlad'/'Henwlad'. Cosbwyd gwallau teipio yn bennaf yn y ddogfen hon hefyd.

## Dogfen 3

Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i gwblhau'r ddogfen hon yn dda. Fe wnaeth pob ymgeisydd newid trefn colofnau'r tabl yn ôl y gofyn. Dewisodd ambell ymgeisydd gyflwyno'r tabl heb linellau, a gadael rhes wag wedi'r penawdau: mae hyn yn dderbyniol pan na ddefnyddir llinellau. Dewisodd ambell ymgeisydd arall linellu'r tabl: mae hyn hefyd yn dderbyniol ond rhaid gadael un llinell wag ar ôl y penawdau. Cosbir ymgeiswyr os byddant yn dewis llinellu'r tabl a gadael rhes wag o 3 cell ar ôl y penawdau (4L). Cosbwyd gwallau teipio yn bennaf a'r diffyg i ddefnyddio priflythyren ddechreuol fel a gyflwynwyd yn y drafft (1.7).

## Dogfen 4

Cwblhawyd y ddogfen hon yn foddhaol. Cosbwyd ambell ymgeisydd am ddileu llinellau'r ffurflen (2.3). Cosbwyd eraill am beidio â chynnwys y dyddiad (neu ei gynnwys yn Saesneg) (2.1) ac am fethu â rhoi llinell drwy'r gair 'ffacs' (2.3). Cosbwyd yn bennaf am wallau teipio megis methu â chynnwys priflythyren ddechreuol fel yn y drafft (1.7), ayb.